



Adolygiadau o wariant: yr arferion gorau yn rhyngwladol a gwersi allweddol a ddysgwyd

Cyflwyniad

Mae adolygiadau o wariant wedi dod i'r amlwg fel adnodd hanfodol i lywodraethau sy'n ceisio cysoni eu cyllidebau ag amcanion cyllidol a strategol, yn enwedig yn sgil argyfwng ariannol byd-eang 2007-2009 (Robinson, 2013). Mae llywodraethau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi mabwysiadu adolygiadau o wariant fwyfwy er mwyn craffu ar wariant a rhoi mesurau arbedion ar waith (Robinson, 2013). Wrth i effeithiau'r argyfwng ariannol leihau, symudodd gwledydd hefyd draw fwyfwy oddi wrth ddull 'sy'n cael ei yrru gan argyfwng' a symud tuag at ymgorffori adolygiadau o wariant yn rhan sylfaenol o'r broses gyllidebol, gan geisio dadansoddi a gwella'r gwaith o reoli gwariant rhaglenni (Bova et al, 2020). Mae bron pob un o wledydd yr OECD bellach yn mynd ati bob blwyddyn neu'n rheolaidd i gynnal adolygiadau o wariant, ac mae'r rhan fwyaf yn cysylltu eu proses adolygiad o wariant â phroses eu cyllideb flynyddol neu eu fframwaith gwariant tymor canolig (OECD, 2024, Doherty, 2024).

Ym mis Mehefin 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd y byddai Adolygiad nesaf o Wariant Cymru yn ymestyn 'y tu hwnt i flaenoriaethau tymor byr i ganolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol yn y tymor canolig i'r tymor hir', gan helpu i wreiddio dull Llywodraeth gyfan o nodi blaenoriaethau a chyflawni canlyniadau (Senedd Cymru, 2024). Bydd Adolygiad nesaf o Wariant

y DU yn dod i ben yng ngwanwyn 2025, ac er y bydd Cymru'n parhau i ddibynnu ar y setliad cyffredinol gan Lywodraeth y DU, bydd y dull newydd hwn hefyd yn ystyried yr holl ysgogiadau cyllidol sydd ar gael i Gymru.

Mae'r briff polisi hwn yn dwyn ynghyd y gwersi a ddysgwyd yn rhyngwladol ar gynnal a gweithredu Adolygiad o Wariant i lywio un Llywodraeth Cymru.

Diffiniadau o adolygiadau o wariant

Yn eu hystyr ehangaf, mae adolygiadau o wariant yn offer sy'n cynorthwyo llywodraethau i reoli cyllidebau o fewn terfynau cyllidol, gan gysoni gwariant â blaenoriaethau strategol a gwella gwerth am arian ym mhroses y gyllideb (Bova et al., 2020). Un o nodweddion unigryw adolygiadau o wariant yw eu ffocws deul: maent yn edrych yn ôl i asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwariant yn y gorffennol, ac mae ganddynt y potensial hefyd i edrych ymlaen at nodi opsiynau gwario gwell ar gyfer y dyfodol os yw o fudd i lywodraeth (van Nispen, 2013).

Mae'r diffiniad mwyaf cyffredinol o adolygiad o wariant yn ei ddisgrifio fel 'y broses o ddatblygu a mabwysiadu mesurau arbedion, ar sail craffu'n systematig ar wariant sylfaenol' (Robinson, 2013: 1). Gan adeiladu ar y diffiniad hwn, mae Tryggvadottir (2022: 2) yn diffinio adolygiadau o wariant fel 'offer ar gyfer dadansoddi gwariant presennol y llywodraeth yn systematig... [a] helpu llywodraethau i reoli gwariant cyhoeddus drwy ailddyrannu adnoddau cyllidol'. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod diffiniadau o adolygiadau o wariant yn amrywio rhwng

gwledydd a'u bod yn cael eu siapio gan y modd y mae adolygiadau o wariant yn cael eu rhoi ar waith, heb ddiffiniad y mae pawb yn cytuno arno. Gall hyn achosi dryswch yng nghydestun y DU oherwydd bod defnydd Llywodraeth y DU o'r term 'adolygiad o wariant' yn wahanol iawn i'r ffordd y caiff ei ddefnyddio'n rhyngwladol fel arfer. Yn hytrach nag fel offeryn ar gyfer asesu gwariant sylfaenol llywodraeth er mwyn datblygu mesurau arbedion, defnyddir y term 'adolygiad o wariant' fel arfer yn y DU i ddisgrifio 'proses lle mae'r llywodraeth yn nodi cynlluniau gwariant cyhoeddus ar gyfer adrannau'r llywodraeth', sy'n debycach i gyllidebu tymor canolig (Bartrum a Paxton, 2024).

Nid oes methodoleg 'glasbrint' nac 'un ateb i bawb' ar gyfer cynnal adolygiadau o wariant. Mae llywodraethau'n defnyddio dulliau amrywiol yn seiliedig ar eu blaenoriaethau unigryw, eu strwythurau sefydliadol a'u cyd-destunau gwleidyddol (Tryggvadottir, 2022). Mae ystyriaethau gwleidyddol a sefydliadol hefyd yn aml yn dylanwadu ar lunio adolygiad o wariant (Allen a Clifton, 2024). Er gwaethaf yr amrywiadau hyn, mae'r nod cyffredinol yn dal yn gyson, sef rheoli gwariant y llywodraeth yn well a chynyddu arbedion.

O ystyried yr amrywiad sylweddol yn y ffordd y caiff adolygiadau o wariant eu cymhwyso rhwng gwledydd, mae nodi arferion gorau yn fater heriol (Bova et al., 2020). Serch hynny, gellir dysgu gwersi gwerthfawr o brofiadau rhyngwladol, gan gynnwys sut mae pob gwlad yn dewis cynllunio a gweithredu ei hadolygiad o wariant ar sail ei hanghenion a'i chyd-destun. Ceir crynodeb o'r mewnwelediadau hyn isod.

Mae llywodraethau'n defnyddio dulliau amrywiol yn seiliedig ar eu blaenoriaethau unigryw, eu strwythurau sefydliadol a'u cyd-destunau gwleidyddol

Amcanion adolygiadau o wariant

Gall adolygiadau o wariant gyflawni sawl diben, gan gynnwys hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd, gan alluogi llywodraethau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n gwella ansawdd cyllid cyhoeddus drwy hyrwyddo effeithlonrwydd dyrannol, gan ganiatáu ar gyfer ailflaenoriaethu gwariant drwy fyfyrio ar ba eitemau sy'n ddefnydd aneffeithiol o adnoddau tra hefyd yn gwneud lle ar gyfer gwariant blaenoriaethol arall, fel gwariant gwyrdd (Bova et al., 2020). Yn yr un modd, mae Doherty et al (2022: 2) yn datgan bod hyblygrwydd yr adolygiad o wariant fel adnodd yn caniatáu i'w ddylunio a'i gwmpas gyflawni nifer o amcanion, gan gynnwys:

- Cyfuno cyllidol drwy nodi mesurau arbedion sy'n lleihau cyfradd y twf neu lefel y gwariant cyhoeddus
- Creu gofod cyllidol i ddarparu ar gyfer blaenoriaethau polisi newydd neu i gwrdd â phwysau cyllidol sy'n dod i'r amlwg
- Ailflaenoriaethu gwariant presennol o feysydd â blaenoriaeth isel ac aneffeithiol i flaenoriaethau uwch
- Sicrhau gwell gwerth am arian drwy nodi meysydd gwariant aneffeithlon, lle gellir cyflawni allbynnau a chanlyniadau tebyg gyda llai o fewnbwn a rhyddhau adnoddau i helpu i gyflawni'r amcanion uchod.

Mae llywodraethau wedi canfod ei bod yn fwy effeithiol gwneud gostyngiadau mawr mewn gwariant mewn ffordd dargedol drwy ddefnyddio adolygiadau o wariant na chymhwyso toriadau yn gyffredinol gan fethu gwahaniaethu rhwng gwariant blaenoriaeth uchel a gwariant blaenoriaeth isel (Robinson, 2018). Mae lwerddon a'r Deyrnas Unedig yn enghreifftiau allweddol o wledydd sydd wedi sicrhau cyfuno cyllidol mawr drwy ddefnyddio adolygiad o wariant. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwledydd wedi symud draw oddi wrth adolygiadau o wariant sy'n canolbwyntio ar doriadau i gyllidebau tuag at y rhai sy'n cymryd golwg fwy tymor canolig ar effeithlonrwydd, gan wella effaith rhaglenni a chysoni gwariant â blaenoriaethau'r llywodraeth (Bova et al., 2020).

Fel y soniwyd eisoes, gall cwmpas ac amcanion adolygiadau o wariant amrywio'n fawr rhwng gwledydd. Yn ddiddorol, canfu arolwg cyllidebu gan yr OECD yn 2020 er nad ailddyrannu gwariant i gyd-fynd â blaenoriaethau polisi oedd y rhesymeg bwysicaf y tu ôl i'r penderfyniad i ddechrau cynnal adolygiadau o wariant, dyma ganlyniad mwyaf cyffredin yr adolygiadau o wariant, gyda gwelliannau tymor canolig i dymor hir mewn effeithlonrwydd gwariant yn ail agos (OECD, 2020). Gweler Ffigur 1 i gael rhagor o fanylion.

Mathau o adolygiadau o wariant

Gellir dosbarthu adolygiadau o wariant yn ddau brif fath, sef cynhwysfawr a thargedol. Mae **adolygiad cynhwysfawr o wariant**, fel y rhai a gynhelir yn y DU ac Iwerddon, yn golygu chwilio heb gyfyngiadau am arbedion ar draws cyfran fawr o wariant y llywodraeth. Mae'r adolygiadau hyn yn aml yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag anghenion cyfuno cyllidol brys neu i ymateb i ddigwyddiadau cyllidol mawr. Maent yn galluogi llywodraethau i asesu cyfaddawdau ar draws ystod eang o wariant ond mae angen adnoddau sylweddol ac ymrwymiad trawslywodraethol arnynt (Doherty a Sayegh, 2022, Robinson, 2013).

I'r gwrthwyneb, mae **adolygiadau targedol o wariant**, a elwir hefyd yn adolygiadau dethol, yn canolbwyntio ar gategorïau o wariant sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw (Robinson, 2013). Gellir cymhwyso'r rhain yn fertigol, gan archwilio gwariant gweinyddiaeth, neu eu cymhwyso'n llorweddol, gan asesu gwariant ar draws y llywodraeth ar amcan polisi penodol, megis mentrau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae adolygiadau llorweddol yn darparu cyfleoedd i nodi gweithgareddau dyblyg, ac mae adolygiadau fertigol yn symlach yn weinyddol ond yn llai cynhwysfawr o ran cwmpas (Doherty a Sayegh, 2022).

Mae'r dewis rhwng adolygiadau cynhwysfawr ac adolygiadau targedol yn aml yn dibynnu ar amcanion penodol, amgylchiadau cyllidol a chyd-destun gwleidyddol. Mae adolygiadau cynhwysfawr yn addas iawn ar gyfer mynd i'r

afael â chyfuno cyllidol a gosod terfynau gwariant tymor canolig, ac mae adolygiadau targedol yn canolbwyntio fwy ar wella gwerth am arian a gwella ansawdd gwasanaethau'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus. Mae rhai gwledydd, fel yr Iseldiroedd, wedi rhoi adolygiadau targedol blynyddol ar waith ochr yn ochr ag adolygiadau cynhwysfawr cyfnodol yn ystod cyfnodau o heriau cyllidol sylweddol (Doherty a Sayegh, 2022).

Er gwaethaf dulliau sy'n amrywio o wlad i wlad, bydd adolygiad o wariant fel arfer yn cynnwys sawl cam clir: gosod a dylunio amcanion; nodi opsiynau arbed ar sail dadansoddiad manwl; penderfynu ar fesurau i'w cynnwys yn y gyllideb; a gweithredu. Ceir crynodeb o broses nodweddiadol adolygiad o wariant yn Nhabl 1. Mae Tabl 1 hefyd yn crynhoi pwy sy'n gyfrifol am bob cam o'r broses.

Strwythurau llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu sydd wedi'i ddiffinio'n dda yn hanfodol ar bob cam o broses yr adolygiad o wariant i sicrhau ei lwyddiant (Tryggvadottir, 2022, Robinson, 2013). Gall adolygiadau trawslywodraethol fod yn gymhleth oherwydd gallant gynnwys nifer o weinyddiaethau ac adrannau llywodraethol. Felly, mae gwledydd fel arfer yn nodi strwythurau llywodraethu clir yn y Cylch Gorchwyl, gan gynnwys nodi'r rolau canlynol:

- **Y Weinyddiaeth Gyllid:** Mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn chwarae rhan ganolog, gan gymryd rhan weithredol drwy gydol y broses. Mae'n sicrhau bod adolygiadau o wariant yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol yng nghylch y gyllideb a chynllunio cyllidol.
- **Gweinyddiaethau Llinell:** Mae gweinyddiaethau llinell yn cymryd rhan ymhob cam, gan gydweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Gyllid. Maent yn gyfrifol am weithredu canlyniadau adolygiadau o wariant, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau sectorau.
- **Y Cabinet:** Mae cyfraniad y Cabinet yn arbennig o arwyddocaol ar ddwy adeg allweddol: ar y dechrau, wrth benderfynu ar bynciau a chwmpas yr adolygiad, ac ar y diwedd, pan fydd argymhellion yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo.

Mae hefyd yn cael ei ystyried yn arfer da i nodi 'trefniant llywodraethu deublyg'. Mae hyn yn golygu sefydlu grŵp llywio, sy'n gyfrifol am oruchwylio proses yr adolygiad o wariant, a gweithgor, sy'n cynnal yr adolygiad o wariant ei hun (Tryggvadottir, 2022).

Adolygiadau o wariant yn ymarferol

Cynyddu'r ffocws ar y tymor canolig a'r tymor hir

Mae'r OECD yn argymhell y dylai cyllidebau gyd-fynd yn agos â 'blaenoriaethau strategol tymor canolig y llywodraeth drwy: ystyried sut mae llunio a gweithredu prosesau rheolaidd ar gyfer adolygu polisïau gwariant presennol... mewn ffordd sy'n helpu i bennu disgwyliadau cyllidebol yn unol â datblygiadau ar draws y llywodraeth' (OECD, 2015).

Mae gorwel tymor canolig fel arfer yn cyfeirio at 3-5 mlynedd. Gall defnyddio dull o'r fath wella effeithiolrwydd adolygiadau o wariant, gan fod golwg tymor hir yn cynyddu'r opsiynau y gall llywodraeth eu hystyried o'i gymharu â golwg tymor byr (h.y. un flwyddyn) (Tryggvadottir, 2022).

Mae arbenigwyr hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod argymhellion adolygiadau o wariant yn cael eu hintegreiddio yn fframwaith gwariant tymor canolig llywodraeth. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r gwaith o weithredu'r argymhellion mewn termau pendant, ac mae darparu 'mwy o dryloywder a mwy o sicrwydd ynghylch lefelau cyllido yn y dyfodol' hefyd wedi cael ei amlygu (Tryggvadottir, 2022: 9).

Yn Nenmarc, mae adolygiadau o wariant, sydd wedi'u cynnal ers dros 20 mlynedd, yn sail i drafodaethau cyllidebol a phenderfyniadau ar gytundebau cyllideb amlflwydd. Maent yn cael eu cynnal dros gyfnod byr, e.e. gwneir penderfyniad ar yr hyn y bydd yr adolygiad yn ei gwmpasu, a chaiff yr adolygiad ei gynnal o fewn 5 mis (Ionawr – Mai) fel bod canfyddiadau ar gael i'r llywodraeth pan fyddant yn penderfynu ar flaenoriaethau'r gyllideb (Mehefin).

Adolygiadau o wariant a chyllidebu gwyrdd

Gall adolygiadau o wariant hefyd chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang sy'n dod i'r amlwg, megis newid hinsawdd. Mae nifer o wledydd, fel Awstria, wedi dechrau cynnal 'adolygiadau o wariant gwyrdd' sy'n defnyddio dull targedol hirdymor ar gyfer adolygiadau o wariant.

Mae Cynllun Adfer a Gwydnwch Awstria yn canolbwyntio ar adferiad cynaliadwy a chyllid gwyrdd, ac mae'n cynnwys adolygiadau o wariant fel blaenoriaeth ar gyfer diwygio (Gweinyddiaeth Ffederal Cyllid Gweriniaeth Awstria, 2023). I ymateb i hyn, mae'r Weinyddiaeth Gyllid wedi sefydlu Pwynt Ffocws Cyllidebu Gwyrdd yn ei hadran gyllideb, sy'n cynnal Cylch Adolygu Gwariant Gwyrdd sy'n cael ei drefnu'n wasgarog dros nifer o flynyddoedd (Kowald a Hoflmayr, 2024). Nod hirdymor hyn yw 'cynnal dadansoddiad systematig cyffredinol o holl weithgareddau sofran y llywodraeth ffederal ac archwilio eu cydnawsedd â lliniaru newid hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd' (Gweinyddiaeth Ffederal Cyllid Gweriniaeth Awstria, 2023).

Mae'r cylch adolygu gwariant yn cynnwys pum modiwl sy'n adeiladu ar ei gilydd gan ganolbwyntio ar 'drawsnewid gwyrdd', gan gynnwys dadansoddiad o'r dirwedd cymhelliant o ran polisïau hinsawdd ac ynni, a synergeddau posibl â thirwedd ariannu polisi hinsawdd ac ynni'r gwladwriaethau ffederal (Kowald a Hoflmayr, 2024).

Integreiddio adolygiadau o wariant ag adnoddau cyllidebol eraill

Mae llenyddiaeth sy'n seiliedig ar ymarfer ar adolygiadau o wariant yn tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid integreiddio adolygiadau o wariant wrth baratoi a chynllunio cyllideb er mwyn cael yr effaith a ddymunir (Tryggvadottir, 2022 a Robinson, 2013). Mae'r integreiddio hwn yn sicrhau bod opsiynau arbedion a nodwyd yn ystod yr adolygiad o wariant yn bwydo'n uniongyrchol i benderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid cyllideb ar gyfer pob adran wariant yng nghylch y gyllideb sydd ar ddod fel y gall llywodraethau 'gymharu rhinweddau cynigion gwario newydd yn erbyn newidiadau i

gyfansoddiad gwariant presennol' (Tryggvadottir, 2022: 7). Yn yr ystyr hwn, gall adolygiadau o wariant greu lle ar gyfer mentrau gwario newydd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth yn y tymor canolig a'r tymor hir (Robinson, 2013).

Er mai dim ond pan fydd rhaglenni wedi dod i ben y mae archwiliadau gwerthuso a pherfformiad ex-post yn adolygu effeithiolrwydd a gwerth am arian, mae integreiddio'r adolygiad o wariant yn y broses o wneud penderfyniadau cyllidebol hefyd yn cynnig rhagolwg a data perfformiad cyn y broses hon o wneud penderfyniadau (Doherty a Sayegh, 2022: 2). Mae nifer o arbenigwyr wedi ailadrodd pwysigrwydd cysylltu cyllidebu perfformiad â hyblygrwydd cyllideb a gweithredu fframweithiau gwariant tymor canolig (Ketners, 2020 a Marti, 2019).

Ffactorau llwyddiant allweddol

Er nad oes methodoleg 'un ateb i bawb' ar gyfer cynnal adolygiadau o wariant, mae nifer o ffactorau llwyddiant cyffredin wedi cael eu nodi yn y llenyddiaeth. Gellir crynhoi trosolwg o ffactorau llwyddiant fel a ganlyn ((Tryggvadottir, 2022 a'r Comisiwn Ewropeaidd, 2024):

1. **Amcanion clir.** Dylid diffinio amcanion yn glir ar y dechrau, boed hynny i leihau gwariant cyffredinol, symud gwariant o un o flaenoriaethau'r llywodraeth i un arall, neu i wella effeithiolrwydd gwariant. Dylai'r amcanion hyn hefyd gael eu nodi mewn Cylch Gorchwyl ffurfiol a baratoir ac a gytunir gan adrannau sy'n rhan o'r adolygiad.
2. **Cwmpas clir i lywio'r ffordd orau o gyflawni amcanion.** Gall cwmpas adolygiad o wariant amrywio yn y pen draw, yn dibynnu ar yr amcanion y mae'r wladwriaeth yn gobeithio eu cyflawni. Gall adolygiadau o wariant gynnwys ffrwd waith un adran neu ar draws nifer o swyddogaethau gweinidogol. Dylai pob gwariant fod yn gymwys i'w adolygu o fewn cyfnod adolygiad o wariant, gan gynnwys gwariant cyfredol, gwariant gorfodol, a gwariant ychwanegol. Mae cyfaddawdu rhwng cwmpas eang a chul wrth gynnal adolygiadau o wariant. Er enghraifft, gall cwmpas ehangach wneud y dadansoddiad yn fwy eang gan roi hwb i gyfranogiad rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid yw'n ymarferol adolygu pob maes o wariant

y llywodraeth yn fanwl bob blwyddyn. Bydd adolygiadau o wariant sy'n canolbwyntio ar nifer llai o feysydd gwariant yn cael mwy o effaith oherwydd byddant yn fwy manwl.

3. **Arbenigedd a gallu.** Gall adolygiadau o wariant fod yn drwm ar adnoddau felly mae'n bwysig bod digon o adnoddau ar gael drwy gydol y broses. Mae meithrin perthynas gydweithredol agos â gweinyddiaethau llinell hefyd yn allweddol i wella'r gallu i gynnal adolygiadau o wariant a chreu ymdeimlad o berchnogaeth. Mae rhai gwledydd, fel Norwy, wedi sefydlu unedau arbenigol ar gyfer adolygiadau o wariant yn y Weinyddiaeth Gyllid i feithrin capasiti a harneisio arbenigedd.
4. **Rolau a chyfrifoldebau clir.** Mae strwythur llywodraethu clir drwy gydol y broses o gynllunio a gweithredu adolygiad o wariant yn ffactor llwyddiant allweddol. Mae cydweithredu a pherchnogaeth yn ddau faes allweddol sy'n pennu pa mor effeithiol yw'r adolygiad o wariant. Gall dull cydweithredol feithrin consensws a chydberchnogaeth, ac mae cynnwys gweinyddiaethau llinell yn weithredol drwy gydol y broses yn hanfodol i lwyddiant yr adolygiad o wariant. Mae ymrwymiad gwleidyddol cryf hefyd yn bwysig i lwyddiant unrhyw adolygiad o wariant, gan gynnwys er mwyn sicrhau bod argymhellion yr adolygiad o wariant yn cael eu rhoi ar waith.
5. **Cysondeb â phroses y gyllideb a fframweithiau tymor canolig.** Dylid integreiddio adolygiadau o wariant yn y gwaith o baratoi cyllideb y llywodraeth er mwyn gallu cysylltu argymhellion yr adolygiad o wariant â rheolaeth gyllidol y llywodraeth. Mae'r integreiddio hwn yn arwain at benderfyniadau dyrannu cyllideb gwybodus sy'n cyd-fynd â pherfformiad, gwerth am arian a blaenoriaethau sy'n newid. Wrth lunio amserlen adolygiad o wariant, dylai cynllunio gynnwys ystyried amser i sicrhau bod y canfyddiadau ar gael mewn pryd ar gyfer y broses o lunio'r gyllideb. Mae hyn yn galluogi llywodraethau i gymharu effaith arfaethedig cynigion gwario newydd o'u cymharu â newidiadau yng nghyfansoddiad y gwariant presennol. Er enghraifft, yn Norwy, mae adolygiadau o

variant yn cael eu hintegreiddio ym mhroses y gyllideb ac maent yn elfen safonol o gynllunio cyllideb. Bob hydref, mae llywodraeth Norwy yn cynnal cynhadledd strategaeth y gyllideb i asesu'r rhagolygon economaidd tymor canolig. Ar sail y drafodaeth hon, mae'r llywodraeth yn sefydlu ei blaenoriaethau a'i chanllawiau ar gyfer proses y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae mandadau ar gyfer adolygiadau o variant yn elfen allweddol o'r trafodaethau hyn, ac mae canlyniadau adolygiadau blaenorol o variant hefyd yn cael eu hystyried. Yn fuan ar ôl cyflwyno adroddiad terfynol yr adolygiad o variant, mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn cydweithio'n agos â gweinyddiaethau llinell i gyflwyno ei hargymhellion i'r llywodraeth i'w cymeradwyo. O ganlyniad, mae argymhellion yr adolygiad o variant sydd â goblygiadau uniongyrchol i variant yn cael eu hymgorffori ym mhroses y gyllideb.

6. **Argymhellion clir.** Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl, dylai adolygiadau o variant ddod i ben gyda chyfres o argymhellion clir. Mae'r gwaith o baratoi'r argymhellion hyn weithiau'n seiliedig ar amrywiaeth o senarios ac opsiynau i'w hystyried.
7. **Monitro'r modd y caiff penderfyniadau'r adolygiad o variant eu rhoi ar waith.** Y weinyddiaeth berthnasol sydd fel arfer yn atebol am weithredu unrhyw arbedion neu argymhellion a nodir yn yr adolygiad, gan ymgysylltu'n rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyllid. Yn y DU, er enghraifft, y Trysorlys sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad yr adolygiad o variant ac am fonitro unrhyw risgiau posibl i'r arbedion a nodwyd yn yr adolygiad o variant. Rhan o hyn yw ymgysylltu'n rheolaidd rhwng timau gwario ac adrannau gwario'r Trysorlys. Nid yw adolygiadau o variant fel arfer yn cael eu rheoleiddio drwy ddeddfau cyfreithiol ond yn hytrach drwy brosesau mwy anffurfiol. Er bod fframweithiau cyfreithiol yn gallu darparu eglurder a chysondeb o ran cynnal adolygiadau o variant, prosesau mwy anffurfiol sy'n arferol er mwyn gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid.

Astudiaethau achos

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd (2024) yn tynnu sylw at nifer o wledydd sy'n sefyll allan yn eu dull o gynnal adolygiadau o variant. Caiff tair o'r gwledydd hyn, sef yr Iseldiroedd, Denmarc a Latfia, eu trafod yn fanylach isod. Ar ben hynny, mae'r gwersi allweddol o adolygiadau o variant a gynhaliwyd ar draws gwledydd yr OECD yn ehangach wedi'u crynhoi yn Atodiad 1.

Yr Iseldiroedd

Trosolwg a phwrpas

Fe wnaeth yr Iseldiroedd gyflwyno adolygiadau o wariant am y tro cyntaf yn 1981 ac maent wedi datblygu eu dull gweithredu a'u methodoleg dros y pedwar degawd diwethaf. Hyd yma, mae dros 300 o adolygiadau o wariant wedi cael eu cynnal, sy'n ymdrin â phob maes gwariant o fewn y llywodraeth. Yn ystod y cyfnod hwn, mae ffocws adolygiadau o wariant wedi symud draw oddi wrth gynhyrchu arbedion tuag at ffurfio opsiynau polisi newydd a'u heffaith ragamcanol. Mae adolygiadau o wariant fel arfer ar ffurf adolygiadau cynhwysfawr ac adolygiadau targedol, a gellir cynnal rhwng tri a saith ohonynt bob blwyddyn.

Caiff yr adolygiadau eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyllid ar y cyd â'r gweinyddiaethau llinell perthnasol, ac maent yn gysylltiedig â phroses y gyllideb a'r fframwaith gwariant tymor canolog. Nid oes deddfwriaeth benodol ar adolygiadau o wariant yn yr Iseldiroedd ond mae Deddf Cyfrifyddu 2016 a Rheoliadau'r Arolwg Gwerthuso Cyfnodol 2022 yn cael eu defnyddio i arwain proses yr adolygiad o wariant.

Strwythur llywodraethu

O ran strwythurau llywodraethu, mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn paratoi pynciau'r adolygiad a'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad o wariant, gan eu cyflwyno i'r Cabinet ochr yn ochr â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cylch gorchwyl hwn yn cael ei atodi i ddogfennau'r gyllideb.

Un o nodweddion allweddol fframwaith adolygiad gwariant yr Iseldiroedd yw annibyniaeth y gweithgorau. Caiff y gweithgorau eu cadeirio gan arbenigwr annibynnol, gyda'r Weinyddiaeth Gyllid a gweinyddiaethau llinell perthnasol yn darparu cyd-ysgrifenyddiaeth ac aelodaeth ar lefel cyfarwyddwr neu uwch. Yn ddiddorol, ni all unrhyw aelod o weithgor 'roi feto ar' gynnig aelod arall ar gyfer yr adolygiad o wariant. Cyn i'r gweithgorau gwblhau eu hadroddiadau'n derfynol, bydd pwyllgor rhyngadrannol yn gwirio a yw'r gweithgorau wedi dilyn y canllawiau adolygu a nodir yn y Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno. Mae gan yr adroddiadau statws dadansoddol, anwleidyddol, ac nid yw'r opsiynau a gynigir o reidrwydd yn cyd-fynd â pholisi cyfredol y llywodraeth. Y Cabinet sy'n penderfynu pa opsiynau i'w cynnwys yn y gyllideb ond nid yw'n newid yr adroddiadau cyn eu cyhoeddi. Yn hytrach, caiff "Golwg y Cabinet" ei baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad yr adolygiad o wariant.

Proses

Mae'r Iseldiroedd yn cynnal adolygiadau o wariant bob blwyddyn ac yn ystod pob cylch etholiad cyffredinol. Er enghraifft, yn 2009, nododd y llywodraeth 20 maes polisi i'w hadolygu a gofynnwyd i bob gweithgor ddatblygu ystod o opsiynau arbedion, gan gynnwys o leiaf un senario lle ceir gostyngiad o 20 y cant mewn gwariant neu wariant treth dros bedair blynedd. Mae'r dull hwn yn meithrin cynigion arloesol ac uchelgeisiol. Cafodd adolygiad 2009 effaith nodedig, gydag amcangyfrif o 20 y cant o'r mesurau yng Nghytundeb Clymblaid 2010 yn deillio o adroddiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Enghraifft o Adolygiad o Wariant yn yr Iseldiroedd

Cynhaliwyd adolygiad o wariant 2020 “**Barod ar gyfer Newid Hinsawdd**” i asesu a pharatoi'r Iseldiroedd ar gyfer canlyniadau newid hinsawdd. Roedd yr adolygiad yn cydnabod nad maes polisi penodol yw addasu i'r hinsawdd ond yn hytrach tasg drawsbynciol sy'n croestorri â sawl maes polisi. Fel rhan o'r adolygiad, roedd gweithgor wedi nodi saith maes polisi allweddol lle mae addasu i'r hinsawdd yn chwarae rhan sylweddol neu y disgwylir iddo chwarae rhan sylweddol.

Yr amcan oedd gwerthuso pa mor ddigonol yw'r polisiâu cyfredol o ran sicrhau bod yr Iseldiroedd yn dod yn gadarn o ran dŵr ac yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Er mwyn llywio eu canfyddiadau, roedd y gweithgor yn dibynnu ar amrywiaeth eang o fewnbynnau, gan gynnwys adolygiadau o lenyddiaeth, gwerthusiadau polisi, cyfweiliadau arbenigol, ymgynghoriadau â sefydliadau gwybodaeth a thrafodaethau ag awdurdodau lleol.

Ar sail eu canfyddiadau, cynigiodd y gweithgor dri opsiwn polisi ac roedd angen gwneud dewisiadau i lywio camau yn y dyfodol mewn polisi addasu i'r hinsawdd. Yn dibynnu ar y senario a ddewiswyd, byddai'r gweithredu naill ai'n arwain at gynnal y gwariant cyfredol, lleihau gwariant 20 y cant neu gynyddu gwariant 20 y cant.

Roedd yr opsiynau hyn yn darparu fframwaith i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gydbwysu ystyriaethau cyllidol â'r angen i addasu'n effeithiol i'r hinsawdd. O ganlyniad i Adolygiad o Wariant 2020, nodwyd cyfleoedd allweddol i wella polisi hinsawdd gyda newidiadau mewn gwariant a chyflwynwyd opsiynau i'r llywodraeth ddewis ohonynt yn seiliedig ar eu blaenoriaethau polisi ac ariannol.

Gwersi allweddol

Gellir tynnu sylw at nifer o gryfderau o'r dull o ymdrin ag adolygiadau o wariant a ddefnyddir yn yr Iseldiroedd. Yn gyntaf, mae pwyslais clir ar gadw adolygiadau o wariant yn wrthrychol ac yn anwleidyddol eu statws. Mae hyn yn sicrhau bod gwahaniad clir rhwng gwleidyddiaeth a pholisi dybryd. Ar ben hynny, mae gan bob gweithgor gadeirydd annibynnol sy'n sicrhau goruchwyliaeth deg.

Yn ail, mae ffocws proses yr adolygiad o wariant wedi symud oddi wrth greu gofod cyllidol tuag at ddarparu amrywiaeth o opsiynau polisi i lunwyr polisiâu. Mae'r addasiad hwn yn adlewyrchu llwyddiant yr Iseldiroedd o ran cysoni proses yr adolygiad o wariant â'r cyd-destun cyllidol sy'n esblygu. Er bod y pwyslais presennol ar ddatblygu opsiynau polisi, mae'r adolygiad cynhwysfawr, sy'n canolbwyntio ar gyfuno, yn dal ar gael fel adnodd i fynd i'r afael â heriau cyllidol mwy difrifol. Mae defnyddio gwahanol fathau o adolygiadau o wariant—cynhwysfawr neu ddethol—yn cynnig hyblygrwydd o ran sicrhau gofod cyllidol pan fo angen.

Fodd bynnag, mae sawl her i gynnal adolygiadau o wariant yn yr Iseldiroedd:

- Mae'r opsiynau gorfodol ar gyfer arbed costau wedi bod yn anodd eu rhoi ar waith. Dywedwyd nad yw nifer o'r adolygiadau o wariant a gynhaliwyd yn cael digon o effaith mewn perthynas â'u natur sy'n drwm ar adnoddau.
- Yn yr un modd, nid yw rhai gweinyddiaethau llinell eisiau i adolygiadau o wariant gael eu cynnal ar eu hadran, a gall hyn beri heriau heb unrhyw fframwaith cyfreithiol ar gyfer cynnal adolygiadau o wariant.
- Mae adolygiadau cynhwysfawr o wariant yn parhau i fod yn faich gweinyddol sylweddol (mae hyn yn cael ei deimlo'n ehangach ar draws llywodraethau).

Denmarc

Trosolwg a phwrpas

Mae gan Ddenmarc hanes hir o gynnal adolygiadau o wariant i greu gofod cyllidol a lleihau gwariant cyffredinol, ar ôl cynnal dros hanner cant o adolygiadau o wariant ar amrywiaeth o bynciau hyd yma.

Cynhelir adolygiadau gwariant blynyddol wedi'u targedu fel rhan o'r broses o baratoi'r gyllideb, gan integreiddio'r adolygiad o wariant yn gadarn fel arf yn y broses gyllidebu. Fodd bynnag, cynhelir pedwar math gwahanol o adolygiad gwariant yn Nenmarc:

1. **Adolygiadau gwariant targedol**, sef y prif fath o adolygiad gwariant y sonnir amdano uchod. Mae'n canolbwyntio ar adolygu meysydd gwariant sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw bob blwyddyn a gall y ffocws newid o'r naill flwyddyn i'r llall.
2. **Adolygiadau rheolaidd o wariant**, sy'n cael eu cynnal bob 4-5 mlynedd ar gyfer sectorau mwy, e.e. lles cymdeithasol. Maent ynghlwm wrth gytundebau gwleidyddol amlflwydd ac mae'r sectorau a ddewisir yn mynd drwy broses i geisio gwella gwerth am arian a hwyluso newidiadau strwythurol effeithiol.
3. Adolygiadau strategol o wariant sy'n canolbwyntio ar swyddogaethau trawsbynciol i ganfod cyfleoedd ar gyfer gwella effeithlonrwydd a pherfformiad y sefydliad ar draws sawl maes gweithredu.
4. **Adolygiadau bach o wariant y gellir eu cynnal yn uniongyrchol** sy'n canolbwyntio ar doriadau gwariant bach nad oes angen eu dadansoddi'n helaeth.

Er nad oes sail gyfreithiol dros gynnal adolygiadau o wariant yn Nenmarc, mae'r broses ei hun wedi hen ennill ei phlwyf yn y llywodraeth.

Strwythur llywodraethu

Mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn chwarae rhan ganolog ym mhroses adolygu gwariant yn Nenmarc, gan fod yn brif gydlynnydd a sicrhau ansawdd. Mae pob adran yn y Weinyddiaeth Gyllid yn cynnwys timau bach (1-3 o unigolion) sy'n gyfrifol am gyllidebu, cysylltu â gweinyddiaethau llinell a chynnal adolygiadau o wariant.

Mae gweinyddiaethau llinell yn cymryd rhan weithredol yn y broses, er gwaethaf y gwrthwynebiad cychwynnol. Maent yn helpu i ddewis pynciau adolygu, yn cymryd rhan mewn pwyllgorau llywio a gweithgorau ac yn elwa o gadw'r arbedion a gynhyrchir drwy'r adolygiad, sy'n eu cymell i gymryd rhan.

Y Pwyllgor Cydlynw Economaidd, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyllid ac sy'n cynnwys gweinidogion economaidd allweddol, yw'r prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol. Mae'n dewis pynciau adolygu, yn cymeradwyo adroddiadau ac yn penderfynu ar fesurau arbedion cyn trafod cyllidebau.

Mae Pwyllgor Llywio ar gyfer pob adolygiad, sydd fel arfer yn cynnwys dirprwy ysgrifenyddion parhaol, yn goruchwyllo'r gwaith o gynllunio, cydlynw ac olrhain cynnydd. Gweithgorau, sy'n cynnwys penaethiaid adrannau o'r Weinyddiaeth Gyllid a gweinyddiaethau llinell, sy'n cynnal yr adolygiadau, tra bod grwpiau prosiect yn cynnal dadansoddiadau penodol.

Yn hanesyddol, mae ymgynghorwyr allanol wedi cael eu defnyddio ar gyfer dadansoddiadau arbenigol, gyda gwariant sylweddol ar eu harbenigedd. Fodd bynnag, i ymateb i bryderon ynghylch dibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol, sefydlodd y Weinyddiaeth Gyllid **uned ymgynghori fewnol** yn 2014, a oedd yn cynnwys 20 o ymgynghorwyr i gynnal adolygiadau o wariant.

Gwersi allweddol

Mae nifer o wersi allweddol y gellir eu defnyddio wrth astudio dull datblygedig Denmarc o gynnal adolygiadau o wariant:

- Mae cysylltiad agos rhwng adolygiadau o wariant yn Nenmarc a'r broses gyllidebu flynyddol, gan sicrhau bod argymhellion yn cael eu hymgorffori yng nghyllidebau'r dyfodol.
- Mae diwylliant cryf o gydweithio rhwng y Weinyddiaeth Gyllid a gweinyddiaethau llinell wedi cael ei feithrin drwy arferion fel rhannu argymhellion a chaniatáu i weinyddiaethau gadw arbedion, sy'n gwella eu hymgysylltiad. Mae gweinyddiaethau llinell yn ystyried bod yr adolygiadau hyn yn werthfawr ar gyfer deall patrymau gwario a dyrannu adnoddau, yn enwedig lle nad oes ganddynt ddata ariannol manwl.
- Mae cyfraniad gwleidyddol hefyd yn sylweddol, gyda gweinidogion allweddol yn y Pwyllgor Cydlynw Economaidd yn goruchwyllo penderfyniadau ar bynciau adolygu a gweithredu.
- Mae defnyddio ymgynghorwyr allanol yn dod ag arbenigedd penodol, yn lleihau llwyth gwaith y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac yn hwyluso deialog rhwng gweinyddiaethau.
- Mae diffiniadau clir o rolau a phrosesau gwneud penderfyniadau strwythuredig yn sicrhau cydweithio a chyfathrebu effeithiol.
- Mae ymrwymiad Denmarc i fireinio ei dull gweithredu yn sicrhau bod ei fframwaith adolygiadau o wariant yn parhau i addasu i heriau a chyfleoedd newydd.

Fodd bynnag, mae heriau'n gysylltiedig â'r dull hwn (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2024). Mae'r ddibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol i gael dadansoddiad manwl mewn adolygiadau o wariant wedi cyfrannu at sylfaen wybodaeth fewnol wannach yn y Weinyddiaeth Gyllid dros amser. Ar ben hynny, mae'r arfer hwn yn gostus ac yn rhoi straen pellach ar adnoddau ariannol. Hefyd, nid oes gan Ddenmarc fframwaith gwerthuso polisi strwythuredig, felly mae'n anodd asesu effaith hirdymor polisiâu a rhaglenni'r llywodraeth yn systematig. O ganlyniad i hynny, gall llunwyr polisiâu wynebu heriau wrth wneud penderfyniadau cwbl wybodus, gan nad yw gwerthusiadau polisi yn cael eu hintegreiddio mewn adolygiadau o wariant. Hefyd, nid oes mecanweithiau wedi'u sefydlu yn y Weinyddiaeth Gyllid i olrhain gweithrediad ac effaith argymhellion adolygiadau o wariant, a gallai hyn gyfyngu ar eu heffeithiolrwydd o ran sbarduno gwelliannau yng ngwariant a pholisi'r llywodraeth. Yn olaf, mae cyhoeddi adolygiadau o wariant yn anaml yn lleihau tryloywder yn y broses.

Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd, 2024

Latfia

Trosolwg

Mae adolygiadau o wariant Latfia yn rhan allweddol o fframwaith rheoli arian cyhoeddus y wlad ac maent wedi'u cynnal ers 2015. Mae Gweinyddiaeth Gyllid Latfia yn diffinio adolygiadau o wariant fel 'proses o ddatblygu a mabwysiadu mesurau arbedion, yn seiliedig ar yr adolygiad systematig o wariant sylfaenol, prosesau a meysydd polisi' (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2024: 23). Eu nod yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwariant cyhoeddus a sicrhau bod adnoddau'r llywodraeth yn cydfynd â blaenoriaethau polisi.

Mae Latfia yn cynnal tri math o adolygiad o wariant; adolygiad strategol, technegol a thymor canolig, ac mae'r rhain yn cyd-fynd â fframwaith y gyllideb amlflwydd. Y nod yw sicrhau disgyblaeth gyllidol a chynaliadwyedd wrth fynd i'r afael ag anghenion newidiol cymdeithas. Mae'r adolygiadau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar ganfod arbedion ac ailddyrannu adnoddau dros gyfnod o dair blynedd.

Strwythur llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu adolygiadau o wariant Latfia wedi'i ddiffinio'n dda, ac mae'n cynnwys nifer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys:

- y Weinyddiaeth Gyllid, sy'n arwain y broses, gan gydlyn â gweinyddiaethau llinell a darparu arbenigedd technegol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau cyllidol ehangach;
- gweinyddiaethau llinell, sy'n chwarae rhan weithredol drwy adolygu eu gwariant eu hunain a chynnig mesurau ar gyfer gwella;
- Cabinet y Gweinidogion, sy'n gwneud penderfyniadau terfynol ar sail argymhellion gan y Weinyddiaeth Gyllid; a'r
- Senedd, sy'n goruchwyllo ac yn cymeradwyo, gan sicrhau cefnogaeth wleidyddol i'r mesurau arfaethedig.

Mae'r broses o ddewis pynciau ar gyfer adolygiadau o wariant yn cynnwys y Weinyddiaeth Gyllid, gweinyddiaethau llinell, y Gweithgor Rhyng-sefydliadol, a Chabinet y Gweinidogion. Mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn diffinio cwrpas pob adolygiad, gan ddwyn ysbrydoliaeth o newyddion cyhoeddus, canfyddiadau adolygiadau blaenorol, dadansoddi data, a'r arferion gorau yn rhyngwladol. Oherwydd natur amrywiol pynciau'r adolygiadau o wariant, mae'r dulliau dadansoddi'n amrywio'n fawr. Yn 2022, roedd y dulliau'n cynnwys dadansoddiad cost tymor canolig ar gyfer mesurau TGCh a chynnal a chadw systemau, gwerthuso polisïau cyllido'r sector iechyd a dadansoddi dangosyddion perfformiad swyddogaethau'r gyllideb graidd.

Enghraifft o Adolygiad o Wariant a gynhaliwyd yn Latfia

Yn 2020, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyllid yn Latfia ei phumed Adolygiad blynyddol o Wariant. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys asesu gwahanol swyddogaethau a ariannwyd gan gyllideb y wladwriaeth, polisïau cyllido a oruchwylwyd gan weinyddiaethau llinell a chanlyniadau gwerthusiadau o wariant tymor canolig. Nod yr adolygiad oedd cyfrannu at ddatblygu fframweithiau cyllideb yn y dyfodol a chyfreithiau cyllideb flynyddol y wladwriaeth. Defnyddiodd Adolygiad o Wariant 2020 ddull arbenigol drwy drefnu'r dadansoddiad a strwythuro'r sefydliad o amgylch tri phrif floc:

1. **Dadansoddiad cynhwysfawr o swyddogaethau a ariennir gan y wladwriaeth:** Mewn cydweithrediad â gweinyddiaethau sectoraidd, dadansodwyd rhaglenni ac is-raglenni cyllideb y wladwriaeth yn ôl swyddogaethau a gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys asesu eu perthnasedd, eu heffeithiolrwydd a'r dyraniadau cyllid cysylltiedig.
2. **Gwerthuso polisïau cyllido o dan weinyddiaethau llinell:** Cafodd polisïau cyllido a reolir gan weinyddiaethau llinell eu dadansoddi i hyrwyddo proses fwy effeithlon a rhesymegol o roi swyddogaethau'r wladwriaeth ar waith, gydag argymhellion ar gyfer newidiadau polisi lle bo angen. Cynhaliwyd gwerthusiadau manwl mewn meysydd penodol:
 - **Meysydd o dan oruchwyliaeth y Sector Iechyd:** Adolygiad trylwyr o wasanaethau gofal iechyd a ariennir gan y wladwriaeth, a gwariant o fewn strwythurau diogelwch.
 - **Meysydd o dan oruchwyliaeth y Weinyddiaeth Addysg a Gwyddoniaeth:** Dadansoddiadau manwl o addysg broffesiynol, ariannu addysg uwch a chyllid ar gyfer y diwydiant chwaraeon.
3. **Canlyniadau'r adolygiad o wariant tymor canolig:** Gan adeiladu ar ganfyddiadau sylweddol o adolygiadau blaenorol o wariant, cynhaliwyd dadansoddiad o wariant tymor canolig. Roedd hyn yn

cynnwys asesu canlyniadau'r gorffennol ac olrhain cynnydd gweithredu, megis cyfleoedd i ganoli swyddogaethau cefnogi a gwella gweithrediadau TGCh.

Y prif wersi a ddysgwyd o'r dull hwn

Ers 2016, mae proses yr adolygiadau o wariant yn Latfia wedi nodi gwerth €683.7 miliwn o arbedion ariannol, sef 1.71% o'r cynnyrch domestig gros (GDP). Gellir nodi sawl cryfder yn null Latfia. Yn gyntaf, mae gan yr adolygiadau o wariant a gynhelir gysylltiad cryf â phroses y gyllideb flynyddol, sy'n galluogi'r canfyddiadau i gael eu rhoi ar waith. Yn ail, er bod adolygiadau o wariant yn cael eu cynnal yn flynyddol, mae Latfia, dros amser, wedi mabwysiadu adolygiad cynhwysfawr o wariant ac adolygiad tymor canolig o wariant, gan ddefnyddio cyfuniad o'r tri dull. Mae'r dull hyblyg hwn yn galluogi'r Weinyddiaeth Gyllid i ddefnyddio'r dull gweithredu sydd fwyaf addas i'r amcanion a nodir yn y Cylch Gorchwyl.

Mae cryfderau eraill yn cynnwys diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir ym mhob cam o broses yr adolygiad o wariant o fewn y Cylch Gorchwyl a chynnwys cynrychiolaeth sefydliadol o Fanc Latfia a Swyddfa Archwilio'r Wladwriaeth drwy'r gweithgorau. Yn olaf, mae Gweinyddiaeth Gyllid Latfia wedi datgan bod proses yr adolygiad o wariant wedi bod yn ddull effeithiol o flaenoriaethu a darparu adnoddau ariannol lle bo angen yn ystyriaethau'r gyllideb flynyddol ac ar gyfer y tymor canolig.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau'n cynnwys y baich gweinyddol sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adolygiadau o wariant, ynghyd â diffyg amser i randdeiliaid gynllunio a gweithredu'r adolygiad o wariant. Mae ymgysylltiad cyfyngedig hefyd ar lefel wleidyddol uwch tuag at broses yr adolygiad o wariant, sy'n gallu cyfyngu ar effaith yr adolygiad.

Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd, 2024

Fflandrys, Gwlad Belg

Trosolwg a phwrpas

Deilliodd yr ymgyrch am adolygiadau o wariant yn Fflandrys o'r ffaith bod angen rheoli cyllideb gynyddol yn effeithiol, yn enwedig ar ôl datganoli cyfrifoldebau gwario yn ddiweddar gan y llywodraeth ffederal a'r cynnydd mewn gwariant sy'n gysylltiedig â hawliau mewn rhaglenni cymdeithasol, sy'n rhoi'r gyllideb dan bwysau.

Nododd y llywodraeth ranbarthol fod angen mabwysiadu dull mwy strategol a thymor canolig o reoli adnoddau cyhoeddus sy'n mynd yn fwyfwy prin. Dros gyfnod cymharol fyr, mabwysiadodd llywodraeth Fflandrys amrywiaeth o ddulliau i roi arferion cyllidebu ar sail perfformiad ar waith, gan gynnwys cynnal adolygiad peilot o wariant, dau adolygiad cynhwysfawr ehangach arall a pharhau ag ymdrechion i gynnal adolygiadau manwl o wariant. Ochr yn ochr â hyn, mae Fflandrys wedi ceisio cryfhau ei fframwaith cyllidebol tymor canolig drwy gyflwyno meincnodau gwariant. Cyn cynnal yr adolygiad peilot, gofynnodd llywodraeth Fflandrys am gymorth technegol gan y Comisiwn Ewropeaidd i integreiddio adolygiadau o wariant â'i fframwaith cyllidebol.

Amcan treialu'r adolygiad o wariant oedd asesu effeithiolrwydd y Rhaglen Talebau Gwasanaeth, menter allweddol gyda'r bwriad o hyrwyddo creu swyddi a hwyluso cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Roedd y cyfrifoldeb dros gyflawni'r rhaglen hon wedi'i drosglwyddo o'r Llywodraeth Ffederal i lywodraeth Fflandrys yn 2016.

Gwersi allweddol

Mae'r OECD wedi argymhell bod llywodraeth Fflandrys yn cryfhau'r cysylltiad rhwng adolygiadau o wariant a phroses y gyllideb. Mae'r adolygiadau cynhwysfawr a'r adolygiadau manwl o wariant wedi

Ffynhonnell: OECD, 2024b

cael eu cyhoeddi hyd yma ar ôl y trafodaethau cyllidebol, sy'n golygu na all weithredu ar yr argymhellion a wnaed drwy'r adolygiad o wariant wrth wneud penderfyniadau cyllidebol amserol.

Casgliad

Mae adolygiadau o wariant yn cael eu defnyddio fwyfwy gan lywodraethau i werthuso gwariant cyhoeddus a sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon er mwyn cyflawni amcanion polisi. Maent hefyd yn helpu i gysoni cyllidebau â nodau strategol tymor canolig a thymor hir, fel twf economaidd, lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Er nad oes un dull penodol o gynnal adolygiadau o wariant, mae gwersi allweddol i'w dysgu gan nifer o wledydd. Yn yr Iseldiroedd, mae gan adolygiadau o wariant ffocws pendant ac maent yn cael effaith gan eu bod yn anwleidyddol ac yn parhau i ganolbwyntio ar bolisi. Maent hefyd wedi esblygu i gyd-fynd â'r cyd-destun cyllidol sy'n datblygu. Mae astudiaeth o ddull Latfia o gynnal adolygiadau o wariant yn tynnu sylw at y ffaith y gall hyblygrwydd yn y math o adolygiad o wariant a ddefnyddir sicrhau bod yr adolygiad hwnnw yn cael ei deilwra tuag at amcan polisi penodol, gan gynyddu effaith yr adolygiad. Fodd bynnag, gall proses o'r fath fod yn drwm iawn ar adnoddau.

Yn ehangach, mae nifer o ffactorau llwyddiant allweddol, fel amcanion, rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, cysoni proses yr adolygiad o wariant â'r broses gyllidebol ehangach a chynnwys arbenigedd allweddol, y gellir eu hystyried wrth ddefnyddio Adolygiad newydd o Wariant Cymru.

Ffynonellau

Allen, R. a Clifton, R. (2024). **From zero-base budgeting to spending review – achievements and challenges**. Development Southern Africa 41(5), 849-865.

Bartrum, O. a Paxton, B. (2024). **Spending reviews**. Institute for Government. Adalwyd o <https://www.instituteforgovernment.org.uk/explainer/spending-reviews>

Bova, E., Ercoli, R. a Bosch, X., V. (2020) **Spending reviews: Some Insights from Practitioners. Workshop Proceedings**. Y

Comisiwn Ewropeaidd. Adalwyd o:

https://economy-finance.ec.europa.eu/document/download/0f201b23-d84f-4c4d-84ac-ece9f13ddddd6_en?filename=dp135_en.pdf

Doherty, L. a Sayegh, A. (2022). **How to Design and Institutionalize Spending Reviews**. Y Gronfa Ariannol Ryngwladol.

Adalwyd o:

<https://www.imf.org/en/Publications/Fiscal-Affairs-Department-How-To-Notes/Issues/2022/09/20/How-to-Design-and-Institutionalize-Spending-Reviews-523364>

Gwasanaeth Cymorth Diwygio Strwythurol y CE. (2019). **Flanders: Integrating Spending Review in the Budgetary System. Technical Report**. Adalwyd o

Y Comisiwn Ewropeaidd. (2024). **Integrating regular spending reviews and policy evaluations into the medium-term budget framework in Estonia and Finland: technical report on international good practices on the design, structure, governance and implementation of spending reviews**.

Adalwyd o: [https://reform-](https://reform-support.ec.europa.eu/document/download/1b2d3dc9-1b83-4523-b0f9-087a3af309e5_en?filename=Integrating%20regular%20spending%20reviews%20and%20policy%20evaluations%20into%20the%20medium-term%20budget%20framework%20in%20Estonia%20and%20Finland_0.pdf)

[support.ec.europa.eu/document/download/1b2d3dc9-1b83-4523-b0f9-087a3af309e5_en?filename=Integrating%20regular%20spending%20reviews%20and%20policy%20evaluations%20into%20the%20medium-term%20budget%20framework%20in%20Estonia%20and%20Finland_0.pdf](https://reform-support.ec.europa.eu/document/download/1b2d3dc9-1b83-4523-b0f9-087a3af309e5_en?filename=Integrating%20regular%20spending%20reviews%20and%20policy%20evaluations%20into%20the%20medium-term%20budget%20framework%20in%20Estonia%20and%20Finland_0.pdf)

Federal Ministry Republic of Austria Finance.

(2023). **Green spending reviews of the Federal Ministry of Finance**. Adalwyd o:

https://www.bmf.gv.at/en/topics/climate-policy/green-budgeting_en/spending_review_en.html

Kowald, K. a Hoflmayr, M. (2024). **Briefing: Next Generation EU delivery – How are the**

Member States doing? Austria's National Recovery and Resilience Plan. Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop. Adalwyd o: [https://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/BRIE/2022/729465/EPRS_BRI\(2022\)729465_EN.pdf](https://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/BRIE/2022/729465/EPRS_BRI(2022)729465_EN.pdf)

Lindquist, E. A. a Sheperd, R. P. (2023). **Spending reviews and the Government of Canada: From episodic to institutionalised capabilities and repertoires.** Canadian Public Administration, 66(2) 247-267.

OECD. (2024b). **Performance-Informed Budgeting in Flanders, Belgium.** Adalwyd o: https://www.oecd.org/en/publications/performance-informed-budgeting-in-flanders-belgium_425a9e96-en.html

OECD. (2024). **Spending reviews.** Adalwyd o: <https://www.oecd.org/en/topics/sub-issues/spending-reviews.html>

PEMPAL BCOP. (2022). **Spending Review Practices in the Netherlands.** Adalwyd o:

https://www.pempal.org/sites/pempal/files/knowledge_product/2023-01-06/pempal_bcop_netherlands.pdf

Robinson, M. (2018). **The role of evaluation in Spending Review.** Canadian Journal of Program Evaluation, 32(3), 305-315.

Robinson, M. **Spending reviews.** OECD Journal on Budgeting 2013(2), 1-42.

Senedd Cymru. (2024). **Cyfarfod llawn 11/06/24.** Adalwyd o: <https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/13947>

Tryggvadottir, A. (2022). **OECD Best Practices for Spending Reviews.** OECD Journal on Budgeting, 1, 1-12.

van Nispen, F. K. M. (2015). **Policy Analysis in Times of Austerity: Cross-National Comparison of Spending Reviews.** Journal of Comparative Analysis: Research and Practice, 18(5), 479-501.

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i Marc Robinson a Simon Gill am ddarparu adolygiad a chynghor arbenigol ar yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol,

Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Charlotte Morgan

+44 (0)29 2087 5345

Charlotte.morgan@wcpp.org.uk

Wales Centre for Public Policy

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk



029 2087 5345




info@wcpp.org.uk



@WCfPP



Ffigur 1: Blaenoriaeth amcanion ar gyfer cynnal adolygiadau o wariant yng ngwledydd yr OECD



Source: OECD (forthcoming), Good Practices in Spending Reviews.

Tabl 1: Trosolwg o broses yr Adolygiad o Wariant

Cam	Amcan	Camau allweddol	Pwy sy'n gysylltiedig/ cyfrifol
Cam 1: Sefydlu'r amcanion a'r fframwaith	Sefydlu cwmpas, amcanion a meini prawf llwyddiant adolygiadau o wariant. Pennu mandad gwleidyddol yr adolygiad o wariant i hyrwyddo perchnogaeth a chyfranogiad.	1. Sefydlu amcanion cyffredinol ar gyfer yr adolygiad 2. Dewis meysydd yr adolygiad 3. Nodi'r prif rolau a chyfrifoldebau 4. Sefydlu targedau'r adolygiad 5. Gosod amserlen ar gyfer yr adolygiad 6. Mae cwmpas yr adolygiad o wariant yn cael ei gymeradwyo yng	Y Weinyddiaeth Gyllid Gweinyddiaethau Llinell Cabinet Gweinidogion Arbenigwyr y gweithgor

Atodiad 1

		Nghabinet y Gweinidogion	
Cam 2: Nodi opsiynau polisi	Nodi opsiynau arbedion a llywio'r asesiad effaith.	1. Casglu data 2. Cynnal gwaith meincnodi a dadansoddi 3. Asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwariant presennol 4. Paratoi adroddiad yr adolygiad o wariant 5. Trafod y materion a ddadansoddwyd yn y gweithgor rhyng-sefydliadol	Y Weinyddiaeth Gyllid Gweinyddiaethau llinell Arbenigwyr y gweithgor
Cam 3: Gwneud penderfyniadau	Penderfynu pa opsiynau arbedion neu fesurau effeithlonrwydd y dylid eu rhoi ar waith.	1. Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion 2. Gwneud penderfyniadau ar lefel gweinidog	Y Weinyddiaeth Gyllid Cabinet Gweinidogion
Cam 4: Gweithredu	Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith yn ôl y disgwyl.	1. Integreiddio argymhellion yn fframweithiau'r gyllideb a'r fframweithiau tymor canolig 2. Deddfu 3. Monitro'r broses o roi'r penderfyniadau ar waith	Gweinyddiaethau llinell Y Weinyddiaeth Gyllid

Tabl 2: Meysydd arfer gorau yng ngwledydd yr OECD

Gwlad	Amcan yr Adolygiad o Wariant	Maes arfer gorau	Unrhyw heriau a wynebwyd	Sut cawsant eu datrys
Seland Newydd	Asesu'r sefyllfa ariannol Ailflaenoriaethu gwariant	Cynnal 'adolygiadau sylfaenol' gan gyhoeddi Cylch Gorchwyl ac adroddiadau cysylltiedig Cynnwys canfyddiadau ym mhroses y gyllideb	Wedi profi gwrthwynebiad gan weinyddiaethau llinell i newidiadau	Wedi ymgysylltu â gweinyddiaethau ar ddechrau'r broses i feithrin ymddiriedaeth
Norwy	Cysoni adolygiadau o wariant â phroses y gyllideb	Cychwyn cynhadledd strategaeth y gyllideb i drafod y rhagolygon economaidd Cynnwys argymhellion ym mhroses y gyllideb	Cymhlethdod cysoni blaenoriaethau nifer o weinyddiaethau	Wedi sefydlu canllawiau clir a chyfathrebu rheolaidd

Atodiad 1

	Pennu blaenoriaethau'r gyllideb	Sefydlu uned arbenigol yn y Weinyddiaeth Gyllid i weithio'n agos gyda gweinyddiaethau llinell a chyflwyno argymhellion i'w cymeradwyo		
Yr Almaen	Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwariant	Yn canolbwyntio i ddechrau ar gwmpas cyfyngedig ond yn raddol yn cynyddu cymhlethdod a chwmpas adolygiadau i ddadansoddi'r rhyngberthynas rhwng rhaglenni, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau ac effeithlonrwydd	Profiad cyfyngedig o gynnal adolygiadau	Wedi meithrin gallu drwy hyfforddiant a gweithredu graddol
Estonia	Gwella trafodaethau cyllidebol a chytundebau amflwydd	Cynnal adolygiadau dros gyfnod byr i sicrhau bod canfyddiadau ar gael ar gyfer blaenoriaethau'r gyllideb, gan ganolbwyntio ar feysydd gwariant allweddol	Amserlenni byr ar gyfer adolygiadau	Wedi symleiddio prosesau ac wedi canolbwyntio ar feysydd allweddol yn unig
Mecsico	Defnyddio gwybodaeth am berfformiad fel sail ar gyfer paratoi'r gyllideb	Defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn systematig Monitro gwaith dilynol ar argymhellion gwerthusiadau cynharach i lywio penderfyniadau ynghylch y gyllideb	Argaeledd data a materion ansawdd	Wedi gwella'r dulliau o gasglu data ac wedi sefydlu safonau
Y Deyrnas Unedig	Sicrhau gwerth am arian Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus	Cynnal adolygiadau cynhwysfawr o wariant sy'n sail i benderfyniadau cyllidebol ac yn blaenoriaethu gwariant ar sail effeithiolrwydd	Pwysau gwleidyddol a chraffu cyhoeddus	Wedi meithrin tryloywder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
Iwerddon	Gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus a'u heffeithlonrwydd	Defnyddio adolygiadau o wariant i asesu effeithiolrwydd rhaglenni a llywio dyraniadau cyllidebol Wedi gwneud y broses adolygu yn fwy cydweithredol, gan gynnwys gweinyddiaethau llinell wrth nodi meysydd ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd	Gwrthwynebiad i newid gan weithwyr o'r sector cyhoeddus	Wedi pwysleisio dulliau cydweithredol a chynnwys rhanddeiliaid

Atodiad 1

Yr Iseldiroedd	Gwella disgyblaeth ac effeithlonrwydd cyllidebol	Cynnal adolygiadau rheolaidd o wariant i gysoni gwariant â blaenoriaethau'r llywodraeth a gwella effeithlonrwydd	Cydbwysio anghenion tymor byr â nodau tymor hir	Wedi cynnwys adolygiadau o wariant â gwaith cynllunio cyllidebol a chyllidol ehangach
Latfia	Cryfhau disgyblaeth gyllidol Gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus	Cynnal adolygiadau o wariant i asesu effeithiolrwydd gwariant cyhoeddus ac i lywio penderfyniadau cyllidebol	Gallu ac arbenigedd cyfyngedig i gynnal adolygiadau o wariant	Wedi creu unedau arbenigol i adeiladu gwybodaeth sefydliadol
Denmarc	Ailddyrannu adnoddau a chynyddu effeithlonrwydd	Dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyllid, defnyddir adolygiadau o wariant fel sail ar gyfer dyrannu adnoddau ac maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau	Gwrthwynebiad gan randdeiliaid i'r newidiadau arfaethedig	Wedi cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu er mwyn sicrhau ymrwymiad
Gwlad Groeg		Cynnal adolygiadau o wariant i nodi aneffeithlonrwydd a blaenoriaethu gwariant, gan ganolbwyntio ar argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth	Cyfyngiadau economaidd a gwrthwynebiad y sector cyhoeddus	Wedi canolbwyntio ar argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi diwygiadau
Gweriniaeth Slofacia	Gwella prosesau rheoli ac effeithlonrwydd cyllid cyhoeddus	Defnyddio adolygiadau o wariant i asesu effeithiolrwydd gwariant cyhoeddus ac i lywio penderfyniadau cyllidebol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau.	Gallu cyfyngedig o ran data a dadansoddi	Wedi cydweithio â sefydliadau rhyngwladol i gael cymorth
Canada	Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rhaglenni	Cynnal adolygiadau o wariant i sicrhau bod rhaglenni'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth, gan addasu i gyd-destunau gwleidyddol sy'n newid	Newid blaenoriaethau gwleidyddol a disgwyliadau'r cyhoedd	Wedi addasu'r broses adolygu er mwyn iddi barhau yn berthnasol i faterion cyfredol